Prosiectau LGBTQ+ sy'n golygu'r mwyaf i ni

16/02/2022

Jasspreet Thethi a'i ffrind yn arddangosfa Never Going Underground
Rydym yn falch o ariannu prosiectau sy'n dathlu hanes LGBTQ+ - dyma rai o ffefrynnau ein staff.

Never Going Underground, Manceinion

Jasspreet Thethi, Rheolwr Ymgysylltu, Gogledd Lloegr

Wrth gerdded i mewn i'r arddangosfa Never Going Underground: Y frwydr dros hawliau LGBT+ nid oeddwn yn barod ar gyfer yr emosiynau a fyddai'n dilyn.

Fe'i cynhaliwyd yn Amgueddfa Hanes y Bobl ym Manceinion dros ddwy flynedd, cafodd ei churadu gan aelodau o'r gymuned LGBTQ+. Dathlodd yr arddangosfa ddegawdau o weithgarwch LGBTQ+ ac anrhydeddodd y trafferthion a'r llawenydd o fod yn rhan o'r gymuned, 50 mlynedd ar ôl dad-droseddoli gweithredoedd cyfunrywiol yn rhannol yng Nghymru a Lloegr.

> "Fe wnes i grio dagrau o werthfawrogiad, gan feddwl am ddewrder gweithredwyr LGBTQ+ a oedd wedi rhoi'r hawliau a'r breintiau rwy'n eu mwynhau heddiw."

Mi ddaeth dagrau i fy llygaid. Fe wnes i grio dagrau o werthfawrogiad, gan feddwl am ddewrder gweithredwyr LGBTQ+ a oedd wedi rhoi'r hawliau a'r breintiau rwy'n eu mwynhau heddiw. Ac fe wnes i grio dagrau o hapusrwydd gan weld eu bod yn cael eu dathlu a bod eu hanes a'u gwaith yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd o'r diwedd.

Hanes Cudd Llandudno: Taith Gerdded Treftadaeth LGBTQ+, Amgueddfa ac Oriel Llandudno

Stephen Barlow, Pennaeth Ymgysylltu, Cymru



Perfformwyr a elwir yn "Queeries" Roy Cowl yn Llandudno, 1930

Yn ddiweddar, bûm yn ddigon ffodus i gymryd rhan yn Hanes Cudd Llandudno: Taith Gerdded Treftadaeth LGBTQ+.

Er gwaethaf gweithio yn y Gronfa Treftadaeth, doeddwn i ddim yn gwybod bod gwirfoddolwyr, gyda chefnogaeth staff yr amgueddfa, wedi gweithio'n galed i ddarganfod mwy am hanes LGBTQ+ Llandudno i greu'r daith gerdded. Ac os ydw i'n onest iawn, ar wahân i wybod am ambell i noson hoyw ym mariau a chlybiau Llandudno, doeddwn i ddim yn gwybod bod un.

> Roedd y daith gerdded yn ein hatgoffa o sut y gall adeiladau hanesyddol ein helpu i gofio a rhannu straeon pwysig sy'n anodd eu clywed weithiau.

Mae'r daith yn dechrau y tu allan i ddrysau'r amgueddfa, ac yn adrodd hanes lle Llandudno ym mywydau pobl LGBTQ+ o'r anhygoel Henry Cyril Paget, pumed Ardalydd Ynys Môn, hyd at greu gr?p cymorth lleol ar gyfer pobl draws. O ganlyniad i greu'r daith gerdded, siaradodd staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa â grwpiau LGBTQ+ lleol am sut yr oeddent am weld hanes queer yn cael ei gynrychioli yn y dyfodol.

Roedd y daith gerdded yn ein hatgoffa o sut y gall adeiladau hanesyddol ein helpu i gofio a rhannu straeon pwysig sy'n anodd eu clywed weithiau.

April Ashley: Portrait of a Lady, Amgueddfa Lerpwl

Élise Turner, Swyddog Cefnogi Rhaglenni

April Ashley wrth agor yr arddangosfa. Credyd: Ken Walker

> Am y tro cyntaf fe wnaeth rhywun daro sgwrs, gan rannu'r hyn roedd yr arddangosfa wedi'i olygu iddyn nhw.

Ymunodd ymuno â'r Gronfa Treftadaeth i gymudwyr bore cynnar lle nad oes neb yn siarad â'i gilydd. Ond y bore ar ôl ymweld ag April Ashley: Portrait of a Lady roeddwn i'n darllen llyfryn yr arddangosfa ar fy nhaith, ac am y tro cyntaf fe wnaeth rhywun daro sgwrs, gan rannu beth oedd yr arddangosfa wedi ei olygu iddyn nhw.

Yr hyn a'm hysbrydolodd oedd bod yr arddangosfa, a gynhyrchwyd gyda Homotopia, wedi siartio hanes LGBTQ+ yn ôl i'r cyfnod Rhufeinig, gan ddangos ei fod wedi bod yn rhan o'n stori erioed.

OUT in Furness, Drop Zone Youth Projects

Sydney Whiteside, Cynorthwy-ydd Cyflanwi Busnes, Gogledd Lloegr

Prosiect anhygoel rydym wedi'i gefnogi yw OUT in Furness gan Drop Zone Youth Projects. Mae pobl ifanc yn Barrow-in-Furness yn cynnal arddangosfa hanes LGBTQ+, gan ddysgu sgiliau cofnodi hanes llafar, ymchwil a dylunio arddangosfeydd ar yr un pryd.

> Helpodd i sefydlu digwyddiad Pride Furness blynyddol, sydd bellach yn ei drydedd flwyddyn.

Y rhan anhygoel oedd nad oedd y sefydliad hwn erioed wedi gweithio'n benodol gyda phobl ifanc LGBTQ+ o'r blaen ac roedd ychydig o opsiynau ar gyfer cymorth LGBTQ+ yn Barrow cyn y prosiect hwn.

Helpodd hefyd i sefydlu digwyddiad Blynyddol Furness Pride, sydd bellach yn ei drydedd flwyddyn.

Fel aelod o'r gymuned LGBTQ+, mae'r prosiect yma'n fy ysbrydoli gan ei fod yn dangos sut y gall menter fach gael effaith aruthrol nid yn unig ar gyfer treftadaeth, ond i gymunedau.

Eisiau cynnal prosiect LGBTQ+?

Dysgwch fwy am yr holl brosiectau LGBTQ+ anhygoel rydym wedi'u hariannu a rhoi'r awen i chi gymryd y camau nesaf i ddechrau eich un eich hun.

rdeb hefyd mewn ...

Gorymdaith Pride, 1974. Credyd: Wikimedia

colli am byth

Queer Looks exhibition at Brighton Museum. Credit: Tessa Hallmann

BTQ+ dress in Sussex, 1917-2017

Don’t Die of Ignorance campaign billboard in Levenshulme, c.1986. Credit: Manchester Archives and Local Studies.

Pride! Prevention! Protection! 30 years of safer sex